**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

31 Hydref 2023

Annwyl Emma

Ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Diolch i chi a'ch cydweithwyr am ddarparu gwybodaeth ychwanegol am Raglenni Cyflawnwyr fel y maent wedi'u cynnwys yn adroddiad y Prif Uwch-arolygydd Thomas dyddiedig 13 Hydref 2023.

Gwnaethom nodi'r adroddiad yn ein cyfarfod ar 23 Hydref a chytuno i ddilyn y pwyntiau isod:

> A fyddai'n bosibl i Ardal Heddlu De Cymru ac Ardal Heddlu Gogledd Cymru gyflwyno eu data yn yr un ffordd â Heddlu Dyfed Powys, h.y. drwy dabl sy'n cynnwys yr un categorïau penodol: Rhaglen, Presenoldeb, Llwybr atgyfeirio, Pwy sy'n gymwys, Ariannu a Hirhoedledd? Roedd yr aelodau o'r farn ei bod yn hynod ddefnyddiol i'r wybodaeth gael ei chyflwyno fel hynny a byddent yn croesawu data cymaradwy ar gyfer ardaloedd eraill yr heddlu.

Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i greu dull cyffredin o ymdrin â Rhaglenni Cyflawnwyr ledled Cymru? Pa asesiad sydd wedi'i wneud o effeithiolrwydd y trefniadau presennol?

A fyddech cystal ag esbonio pam y mae'r Rhaglenni Cyflawnwyr a restrir yn wirfoddol yn unig ac nad ydynt yn orfodol?

Sut mae'r Rhaglenni Cyflawnwyr yn eich cyflwyniad gan Plismona yng Nghymru yn rhyngweithio â'r rhai sy'n cael eu rhedeg gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder?

O ran Gwent allwch chi gadarnhau:

- a oes cynlluniau ar gyfer Rhaglenni Cyflawnwyr newydd ar y gweill a'r dyddiad y byddant yn dechrau rhedeg;
- a yw rhedeg Rhaglen i Gyflawnwyr yn dibynnu ar gyllid gan y Swyddfa Gartref; a
- sut y gall Gorchmynion Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig y bwriedir eu treialu ddod i rym heb i Raglen i Gyflawnwyr fod ar waith yn ardal yr heddlu?

Byddwn yn ddiolchgar iawn o gael eich ymateb erbyn 10 Tachwedd.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.